Y R

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] TACHWEDD, 1895. [RHIF 95.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

LLUNDAIN: PRIF DDINAS Y BYD.

GAN D. DELTA EVANS.

PRIF ddinas y byd, yn ystyr eangaf a helaethaf y gair, ydyw Llundain, yn ddiammheu. O ran nifer ei thrigolion—eu hamrywiaeth diderfyn mewn iaith, gwisg, lliw, dull, a defod; o ran ei hyd, ei lled, a'i chadernid, gwychder ei phalasau a'i hadeiladau o bob math—ei chapelydd, ei heglwysydd, ei themlau, ei hysbyttai, ei chwareudai, a'i thafarnau; o ran prysurdeb ei swyddfeüydd, cyfoeth ei thrysordai, addysg ei hysgolion a'i cholegau, cynnwysiad ei llyfrgelloedd a'i darllenfeüydd, a phrydferthwch swynol ei gerddi cyhoeddus a'i pharciau; ac hefyd o ran ei dylanwad masnachol, llenyddol, addysgiadol, a chrefyddol, ar yr holl fyd o'i hamgylch, nis gwyddom am un ddinas mewn bod yn deilwng o'i chydmaru â Llundain fawr! Oes, yn ddïau, y mae yn Llundain fwy o gyfoeth a mwy o dlodi, mwy o ardderchogrwydd a mwy o drueni, mwy o orddigonedd a mwy o eisieu, mwy o "grefydd" a mwy o annuwioldeb, mwy o gapelydd a mwy o dafarnau, o gymmhariaeth nag un ddinas yn y byd! Yn wir, credir na welodd Babylon ofergoelus a llygredig, nac hyd yn oed Rhufain ormesgar ac uchelgeisiol ei hunan, y rhai oeddynt yn eu tro yn ganolbwynt ac yn wrthddrychau sylw yr holl fyd - credir na welodd y rhai hyn erioed un cyfnod yn eu hanes pryd y gellid cydmaru eu safle âg eiddo Llundain heddyw. Dywed Herschel, y seryddwr bydenwog, mai Llundain ydyw canolbwynt y belen ddaearol; ac fel yr oedd pob ffordd yn arwain i Rufain pan yr oedd hi yn fam-ddinas y byd, felly hefyd yn awr y mae pob gweithiwr a meddyliwr ag sydd yn

meddu gradd o uchelgais yn cyfeirio eu camrau tu a phrif a rhyfeddaf ddinas y byd.

Dywedir fod yn Llundain fwy o Gymry nag sydd yn Nghaerdydd —tua deugain mil, a thua deng mil ar hugain o honynt yn siarad yr hen iaith yn groew. Ac er eu bod mor wasgaredig nes mai yn anfynych neillduol y cyferfydd Cymro *fresh* o'r hen wlad â hwy yn nghwrs ei orymdaith trwy'r ddinas a'i hamgylchoedd, etto y mae yma ddigon o hamdden rhagorol i astudio bywyd Cymreig yn ei amrywiol agweddau. Wedi byw yma am ddeg neu ddeuddeng mlynedd, gan fynychu y gwahanol gapelydd Cymreig a'r cyfarfodydd a'r cyngherddau a gynhelir mewn cyssylltiad â hwy, a thrwy hyny ddyfod i gydnabyddiaeth â nifer mawr o'n cydgenedl, anhawdd ydyw peidio dyfod yn fynych i gyffyrddiad â rhai o feibion a merched Gwalia yn rhywle neu gilydd lawer gwaith yn ystod wythnos o amser. Ac nid anhawdd ydyw eu hadnabod, chwaith! Efallai mai llaethwyr ydyw y mwyafrif o honynt, ond hefyd y mae cannoedd lawer o honynt i'w cael bron yn mhob cangen o fusnes. A chwareu teg i'r Cymro Llundeinig, y mae efe fel rheol yn weithiwr campus—yn brydlon, yn ddiwyd, ac o ddifrif; ac nid anfynych y gwelir Cymro o waed ac iaith yn llanw rhai o'r swyddi goreu ac uchaf yn masnachdai mawrion y ddinas.

Wrth son am gapelydd ac eglwysydd Cymreig yn y Brifddinas, hwyrach y syna rhai o ddarllenwyr Yr Ymofynydd pan yr hysbysaf hwynt fod yma ddeg o addoldai gwych perthynol i'r Methodistiaid Calfinaidd, ynghyda deg o gangen-ysgolion (lle y mae yn debyg y cyfodir capelydd cyn bo hir); gyda'r Cynnulleidfawyr, pedwar o gapelydd a dwy gangen-ysgol; gyda'r Bedyddwyr, dau gapel a dwy gangen-ysgol; gyda'r Wesleyaid, un capel a dau dy cwrdd; tair Eglwys Loegr a dwy genhadaeth; ac hefyd un genhadaeth Gymreig perthynol i'r *City Mission*. Dyma ddeugain namyn un o fanau y cynhelir gwasanaeth Cymraeg ynddynt yn gysson bob Sabbath drwy'r flwyddyn. *A dim un o honynt yn perthyn i'r Undodiaid!* Diammheu fod cynnifer a hyn o addoldai Cymreig yn siarad cyfrolau am chwaeth a thueddiad crefyddol y Cymro; ac wrth ddweyd hyn yr ydwyf yn dyweyd cymmaint a ellir ei ddyweyd yn onest fel cymmeradwyaeth, oblegyd wedi'r cyfan nid ydyw chwaeth a thueddiad crefyddol o fawr werth os na ddefnyddir hwynt i ryw wasanaeth annrhaethol uwch a mwy teilwng nag yn unig fel moddion i fwynhau allanolion crefydd ddefodol a Sabbothol, ac i weini i ddyhëadau gwancus am wag-bleserau disylwedd a diflanol. Y mae cannoedd lawer o Gymry ieuaingc Llundain, yn feibion ac yn ferched, yn "gyflawn-aelodau" gyda'r Calfiniaid, y Wesleyaid, yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, "Eglwys Harri'r Wythfed," ac o bossibl ryw sectau eraill; ond prin y canfyddir y ffaith mewn dim yn eu cymmeriadau cyhoeddus ag sydd yn eu hynodi ac yn eu gwahaniaethu oddiwrth y werin. Y gwir yw mai crefydd ar gyfer byd arall yw eu crefydd hwynt; ac os rhoddir lle o gwbl ynddi i burdeb buchedd a iawn-ymddygiad, y lle olaf hollol ydyw. Y drychfeddwl mawr am grefydd a goleddir bron yn

ddieithriad gan y Cymro Llundeinig "uniawngred" ydyw—"ffydd," nid bywyd; "credu," nid byw: ac o ran hyny dyma y cywair y pregethir ynddo yn yr holl bwlpudau Cymreig—dyrchafu "crediniaeth" fel ammod cadwedigaeth a bywyd tragwyddol, a diystyru moesoldeb fel elfen hunanol a diwerth. Dïau fod perthynas rhwng credu a byw, ac anhawdd ydyw byw yn deilwng heb fod yna ryw grediniaeth gadarn fel sylfaen bywyd; ond am gredu fel y cyfryw—wel, dywedir fod hyd yn oed cythraeliaid yn gwneyd hyny; ac "wrth ein ffrwythau yr adnabyddir" ni, meddai ein hathraw bendigedig, ac nid wrth ein credöau. "Wel, beth a feddylia Mr. a Mrs.——, y rhai ydynt Annibynwyr zelog, am danoch chwi, Miss Th——s, a chwithau yn Undodiad?" meddwn I y Sul o'r blaen wrth gyfeilles ieuangc ddeallus o Sir Aberteifi ag oedd yn swpera gyda ni. "O, cyfaddefant yn rhwydd," meddai hithau, "fod ein gweithredoedd ni yn dda, ond bod ein ffydd ni yn wael." Dyma dystiolaeth ogoneddus, onid ê? i gymmeriad aruchel chwaer o Gymraes! Ac O na chlywid y fath eiriau yn fwy mynych am filoedd o feibion a merched Cymru yn y Brifddinas!

Ac yn awr, anwyl ddarllenydd, deuaf gàm neu ddau yn agosach at brif amcan fy ysgrif. Awgrymais eisioes nad oes yn Llundain gynnifer ag un addoldy perthynol i'r Undodiaid Cymreig; ac ymddengys na wnaethpwyd erioed hyd eleni un ymgais difrifol i gael Rhyddfrydwyr Crefyddol Cymreig y Brifddinas at eu gilydd yn achlysurol i addoli ac i feithrin teimlad o ddyddordeb yn niwylliant meddyliol a llesiant moesol eu gilydd. Gwyddom fod plant rhai o Undodiaid Deheudir Cymru yn dyfod i Lundain o bryd i bryd i wasanaethu neu i gael eu haddysgu; gwyddom nad oes gan y mwyafrif o honynt flâs at yr hyn a gynnygir iddynt fel ymborth ysprydol yn y capelau Cymreig; a gwyddom hefyd mai anfynych y teimlant "gartref" yn addoldai yr Undodiaid Seisnig, er fod y danteithion a'r melusfwydydd a arlwyir *yno* yn ardderchog i'r rhai sydd yn gynnefin a'r iaith fain. Ac er bod yn hollol hyddysg yn y Saesonaeg, *nid* ydyw yr iaith hono yn meddu atdyniad a swyn yr hen Gymraeg. Yn awr, os na chyfarfyddir yn gysson âg anghenion crefyddol ac ysprydol ein cydwladwyr ieuaingc yn iaith gyssegredig eu mamau—iaith anwyl Ysgol Sul Cymru; ïe, yr hen iaith swynol y dysgwyd ni gyntaf i seinio yr enw anwylaf, "mam" ynddi!—rywfodd, collant lawer o'r dyddordeb melus a deimlent gynt mewn bywyd crefyddol; esgeulusant y moddion; ànt yn ddigyffro; ac o dipyn i beth ä rhai o honynt bron yn ddiarwybod iddynt eu hunain ymaith gyda'r llifeiriant, nes yn y man y collir golwg arnynt yn nyfroedd lleidiog annuwioldeb a llygredigaeth!

Dosparth arall o Gymry Llundeinig nad oes gan yr eglwysi "iawnffyddol" un ddarpariaeth (ond tân uffern!) ar eu cyfer ydyw y rhai hyny a elwir ganddynt—gyda'r yspryd cul hwnw ag sydd mor gyffredin yn nodweddu yr "etholedigion" yn eu hymddygiad tuagat eraill a goleddant syniadau crefyddol gwahanol iddynt hwy—ydyw "y gwrthgilwyr," oblegid, ni dybygwn, ddarfod iddynt gilio oddiwrth

ryw sect neillduol yr oeddynt un amser yn perthyn iddi. Yn mhlith y "gwrthgilwyr" hyn y mae cannoedd o Gymry a Chymraesau a ddygwyd i fyny gyda chrefydd; rhai ag oeddynt unwaith yn ymhyfrydu yn ngwaith yr eglwys a'r ysgol Sul; ac yn wir y mae bywyd ymarferol llawer o honynt etto yn esiamplau byw i filoedd o "broffeswyr" Cristionogaeth a hawliant alw eu hunain yn "iawnffyddol" ac "uniawngred." Ac y mae lluaws o elfenau ar waith yn barhaus yn yr eglwysi "iawnffyddol" Cymreig ag ydynt yn tueddu i chwanegu at nifer y gwrthgilwyr—i yru pobl ymaith a'u cadw draw, yn hytrach na'u denu iddynt a'u haddysgu a'u dyddori a'u hymgeleddu yn ysprydol a moesol fel ag i'w cadw ynddynt. Y mae oerfelgarwch a glasdwreidd-dra rhai o'r swyddogion tuagat yr aelodau; anfrawdgarwch anymunol yr olaf drachefn, ac yn fynych eu dull di-groesawgar o dderbyn dyeithriaid; heb son am yr ofergoelion anwaraidd, y coeg-falchder personol a'r hunanedd, y rhagfarnau a'r anwybodaeth —y mae y pethau hyn oll yn cyfranu tuag at gadw dynion meddylgar draw. Cyfaddefwn yn rhwydd fod eithriadau lawer i hyn: cyfaddefwn ein bod yn adnabod llawer o'r dynion goreu a welodd ein daear ni—y dynion mwyaf caredig, mwyaf meddylgar a hunanymwadol—yn perthyn i rai o gapelydd Cymreig Llundain; ond eithriadau *ydyw* y rhai hyn, ac nid yw yr eithriad ond yn profi y rheol. Dynion ydyw y rhai hyn sydd yn rhoddi llawer mwy o bwys ar gymmeriad nag ar gredo, ar egwyddor nag ar athrawiaeth; mewn gair, y maent yn annhraethol uwchlaw eu credöau; teimlant ddyddordeb angerddol yn y bobl ieuainge, a gwnant bobpeth yn eu gallu er eu dyddori a'u cyfarwyddo i adeiladu cymmeriad da. Ac nis gallwn, a bod yn dêg, gau ein llygaid i'r gwaith defnyddiol a pharhäol a wneir gan rai o'r eglwysi Cymreig yn y Dywysogaeth ac yn nhrefydd Lloegr er dyrchafu ein cydgenedl, ac i'w cymhell i weithgarwch gyda symmudiadau gwleidyddol, cymdeithasol, a llenyddol, fel ag "i godi'r hen wlad yn ei hol." A pha beth bynag a ellir ei ddyweyd am y camddefnydd dybryd, fel y credwn, a wneir o'r Ysgol Sul Gymreig i gyhoeddi a lledaenu athrawiaethau, credöau, dogmau, ac opiniynau gwag a diystyr, ac i hau hadau rhagfarnllyd, sectyddol, a dinystriol yn meddyliau yr oes sydd yn codi, addefwn yn ddibetrus fod y sefydliad gogoneddus hwn fel llusern ddysglaer yn gwasgaru goleuni pelydraidd ein hen iaith dros fryniau a dyffrynoedd y Dywysogaeth a threfydd Lloegr, ac yn "cyfodi colofnau cedyrn a diysgog i'w dal i fyny yn ngwyneb ymosodiadau bradychus Dic-Sion-Dafyddiaeth a choeg-ddysgeidiaeth."*

Paid a fy ngham-ddeall I, ddarllenydd hynaws: nid siarad yn erbyn ein sefydliadau crefyddol fel y cyfryw yr ydwyf, ac yr ydwyf dan ormod o ddyled i'r Ysgol Sabbothol Gymreig i ddyweyd gair yn ei herbyn fel sefydliad ag sydd wedi bod o fendith mawr i'n gwlad a'n cenedl ni. Ond ymddengys i mi fod yr Ysgol Sabbothol wedi

* Erthygl ar "Ffawd y Gymraeg," gan yr ysgrifenydd, yn *Maner ac Amserau Cymru*, Mawrth 9fed, 1892.

colli llawer o'i dylanwad cyntefig ar yr ieuengctyd, oblegid anfynych y ceir ynddi yn bresennol gynnifer ag un athraw yn cyssegru ei awr-a-haner ar brydnawn Sul i argraphu ar feddyliau ei ddosparth y pwysigrwydd o ffurfio iddynt eu hunain gymmeriadau pur a dynol a'u cyfyd hwy o lwch y ddaear ac uwchlaw anghyfiawnder a phechod. Mor anfynych, onid ê? y ceir pregethwyr "uniawngred" yn cyhoeddi Efengyl cariad, ac yn dysgu egwyddorion moesoldeb o'r pwlpud! Ymddengys i mi yn ddifrifol fel pe bae gweinidogion yr eglwysi Cymreig ac arolygwyr yr Ysgolion Sul yn gwneyd eu goreu i gadw ein pobl ieuaingc mewn anwybodaeth a thywyllwch meddyliol, ac yn lle eu hannog a'u cynnorthwyo hwynt i astudio gwyddoreg ac i arlwyo eu meddyliau â gwybodaeth ymarferol, ceisiant eu gorlenwi â syniadau coelgrefyddol a rhagfarnllyd nes dyfod o honynt yn wrthddrychau o boen iddynt eu hunain a thosturi i eraill. Etto er hyn i gyd anturiaf ddyweyd y buasai amryw o'r "gwrthgilwyr" y cyfeiriwyd atynt yn rhwydd yn edrych dros gulni a bychander meddyliol "iawnffyddwyr" er mwyn yr hyfrydwch o gydweithio â hwynt er gwellau a dyrchafu cyflwr eu cydddynion *pe na chauid pob drws yn eu herbyn.* Y mae yn Llundain yn bresennol nifer o wyr ieuainc galluog ac ymroddgar ag y buasai yn werth i unrhyw eglwys gael eu gwasanaeth, y rhai ydynt o bryd i bryd wedi dadgan eu parodrwydd a'u hawydd i wneyd yr hyn a allont ar ammodau rhyddfrydol, heb gael o honynt eu gorfodi i danysgrifio i gyfres o ddaliadau crediniaethol arbenig. Ond dywedir wrth y rhai hyn yn ddifloesgni gan yr awdurdodau nad oes un maes llafur yn agored iddynt yn yr eglwys heb iddynt yn gyntaf ddyfod yn aelodau, ac ammod aelodaeth ydyw derbyn yn ddiammheuol a chyda dallineb ofergoelus eu syniadau sectyddol *hwy!* A phan y darganfyddir ambell i ymofynydd aiddgar am y gwirionedd yn dymuno ei oleuo ar rai o anghyssonderau a thwyll-bethau "iawnffyddiaeth," awgrymir iddo, ysgatfydd, mai nid lle i ammheuwyr ydyw yr ysgol neu'r cwrdd Beiblaidd; neu os digwydd iddo ddadgan ei anallu i lyngcu rhyw bwngc dyrus o athrawiaeth, dywedir wrtho gyda chalon-galedwch y pabydd mwyaf anghyddefgar am gadw draw nes iddo ddysgu *credu!* Nid gormodiaeth iaith na darlun gorliwiedig ydyw yr uchod, ond ffeithiau ag y mae profiad llawer fel fy hunan yn dystion byw iddynt. Syniadau anffyddol, neu Undodaidd—yr hyn wrth gwrs sydd gyfystyr!—ydyw pobpeth ag sydd yn gwrthod gwaghoniadau mympwyol "uniawngred." Crybwyllaf yma mai y cymmhelliad cyntaf a gefais i chwilio i mewn i Efengyl syml Iesu Grist fel ei dehonglir hi yn ffydd a buchedd yr Undodiaid, ydoedd pan y dywedwyd wrthyf mewn Ysgol Sul Gymreig dan nawdd y Methodistiaid Calfinaidd yn Llundain, am gadw draw o herwydd fy heresi! Y tro *diweddaf** y syrthiodd sŵn y geiriau caredig hyn ar fy nghlustiau, cyhuddwyd fi o fod, nid yn unig yn anffyddwr, neu yn atheist, ond yn rhywbeth annrhaethol waeth, sef Undodwr, yn gwadu "duwdod Crist"! Canfyddais wedi

* Oblegid yr oeddwn wedi cynnefino â phethau fel hyn.

hyny mai Undodwr oeddwn, ac fy mod yn coleddu Undodiaeth er's, o leiaf, tuag wyth mlynedd, *heb wybod i mi fy hunan!*

Nid peth bach, modd bynag, ydyw ymddadgyssylltu oddiwrth hen adgofion crefyddol, y cyfarfod eglwysig, a'r cyfarfod gweddi; a diau fod poen meddyliol a chwerwder yspryd annesgrifiadwy yn fynych yn cydfyned âg ysgariaeth oddiwrth yr eglwys y byddo un wedi ei fagu ynddi. Nid anfynych, chwaith, y dilynir hyn gan edifeirwch dwys a hiraethus; ac er o bossibl dychwelyd wedi blynyddoedd o absennoldeb, a hwyrach ar ol chwilio yn egniol ond yn ofer am dawelwch yn eithafion tywyllaf a mwyaf anobeithiol anffyddiaeth —yn hytrach na iachau y briw a thawelu y gydwybod, tuedda hyn bron bob amser i ddangos afresymoldeb "iawnffyddiaeth" allan yn eglurach nag erioed i'r ymgeisydd diragfarn am y gwirionedd, ac i wneyd credöau ac athrawiaethau cyfyng ac unochrog yn ffieiddiach hyd yn oed nag o'r blaen i'r hwn y mae gronyn o grefydd yn nghraidd ei galon.

Yr ystyriaethau uchod, ynte, yn nghydag awydd gwneyd rhywbeth er cyfarfod âg angenion crefyddol y Cymry a esgeulusir gan gapelyddiaeth Cymreig y Brifddinas, a gymmhellodd rai cyfeillion ar ddechreu y flwyddyn hon i geisio sefydlu eglwys Gymreig ar linellau rhyddfrydol. Ac ystyried yr anhawsterau sydd ar y ffordd, yn ogystal ag angharedigrwydd a rhagfarn nodweddiadol y sectau, y rhai a gyhoeddant eu hanathemau yn ddidrugaredd uwch ein penau fel eu gelynion, y mae y symmudiad yn myn'd rhagddo yn gyflym, a disgwylir y bydd cyn bo hir wedi ymffurfio yn gymdeithas ar sylfeini diysgog. Llwyddasom yn barod i gael cydweithrediad un Cymro tra adnabyddus yn y byd llenyddol, sef T. Evan Jacob, Ysw., B.A., yr hwn a ennillodd y wobr o gan' punt am hanes bywyd ac amserau yr Esgob Morgan, cyfieithydd cyntaf y Beibl i'r Gymraeg. Y mae Mr. Jacob yn feddyliwr mawr, yn ieithyddwr ffraeth, ac yn areithydd hyawdl, a deil safle uchel fel *Civil Service Tutor* ac athraw mewn ieithoedd estronol; ac os oes gan rai o'n cyfeillion yn Nghymru fechgyn yn awyddus perffeithio eu haddysg ar gyfer *civil service*, cynghorem hwy i'w dodi dan ofal Mr. Jacob. [Ei gyfeiriad ydyw 4, Victoria Terrace, Stroud Green, London N.] Cynhelir ein cyfarfodydd ddwywaith yn y mis, a bydd ynddynt fel rheol gynnulliadau "dèl iawn"—fel y dywedir yn y Gogledd. Dechreuir y gwasanaeth gyda chanu, darllen a gweddïo, yna ceir anerchiad neu bapyr ar ryw bwngc addysgiadol ac ysgrythyrol, neu cymmerir ryw adran o'r Beibl i'w darllen a holi arni fel yn yr ysgolion Sul, a therfynir gydag emyn a gweddi. Dywed rhai cyfeillion "uniawngred" a fynychent ein cyfarfodydd mai yr unig beth sydd yn ein gwahaniaethu oddiwrth y capelau eraill ydyw y pwys a roddir genym ar *fyw* Cristionogaeth yn hytrach nâ'i *chredu*. Cynhaliwyd ein cyfarfod cyntaf yn City Road, a desgrifiwyd ef mewn rhai o'r newyddiaduron fel yr Ysgol Sul Gymreig Undodaidd gyntaf a gynhaliwyd yn Llundain erioed. Hyderwn y dilynir hon gan lawer. Mwynheir ein cyfarfodydd yn fawr gan nifer o fonedd-

igesau ieuaingc a fagwyd yn eglwysi yr Undodiaid yn Sir Aberteifi, a chredwn y buasai gofal am lesiant y rhai hyn yn unig yn annogaeth digonol i ni fyned rhagom, hyd yn oed pe buasai pob cymmhelliad arall i'r gwaith yn diflanu. Ond ymddengys i mi fod genym faes ëang yn agored o'n blaen, a hawlia y gwaith bob mymryn o egni a phob awr o wasanaeth o'n heiddo. Os oes rhywrai yn y Brifddinas yn teimlo dyddordeb yn y symmudiad, rhoddwn bob croesaw iddynt, a gofynwn am annogaeth pob cydwladwr ag sydd yn caru rhyddid ymchwiliad a rhyddid cydwybod; ac os gallwn wneyd rhywbeth tuag at ddattod rhwymau ofergoeliaeth a dryllio llyffetheiriau sectyddiaeth, fel ag i ddyrchafu yr Efengyl i'w safle cyntefig, credwn na bydd ein llafur yn ofer.

"Yr Encilfa,"
2, Eade Rd.,
Finsbury Park,
London, N.



Hydref 10, 1895.

CAN' MLYNEDD I 'NAWR.

Wrth edrych o gwmpas ar ddynion y byd,
Yn fawr ac yn fychan y cyfan i gyd;
Ar dwyll ac anwiredd eu bwriad mor fawr,
Ystyriais eu cyflwr gan' mlynedd i 'nawr.

Pob peth yn annghysson ac allan o le,
Cyfiawnder a gilws ni wyddys i b'le;
Er hyny dan heulwen mi wn nad oes fawr
Na fyddant yn gwybod gan' mlynedd i 'nawr.

Gwyn fyd y dyn dedwydd sy'n meddwl am Dduw,
Yn caru'i orch'mynion ac ynddynt yn byw:
Ac yn ei gydwybod mor gadarn a chawr
A gaffo gyfiawnder gan' mlynedd i 'nawr.

Ystyriais y cyfan a wyddwn yn bod
Yn berchen anrhydedd, yn chwenych y clod;
Ni fydd yn eu meddiant a chwantant mor fawr,
Na chlod nac anrhydedd gan' mlynedd i 'nawr.

Y Brenin yw'r cyntaf, Duw roddo iddo ras,
Nid iawn i neb ganu am dano'n rhy gas;
Yn hyn o fyd marwol mae'n fwyaf o'r mawr,
Ond beth fydd ei fawredd gan' mlynedd i 'nawr?

Rhyfelwr y Brenin sy 'nawr yn wr balch,
Yn lladd ffordd y cerddo, pwy'n debyg i'r gwalch?

Er maint ei waedlydrwydd a'i anrhaith mor fawr,
B'le bydd e'n rhyfela gan' mlynedd i 'nawr.

Cynghorwyr y Brenin sy'n uchel eu ffrost,
Aent trwy'r tew a'r teneu, nyni sy'n y gost;
'Nol syrthio fel Satan o'r wybren i'r llawr,
B'le bydd eu holl rodres gan' mlynedd i 'nawr?

Swyddogion y Brenin sy'n mhob man o'r tir,
Yn crafu am y cyfan, yn amheu pob gwir;
Er maint eu haerllugrwydd, a'u cribddail mor fawr,
Beth fydd eu swyddogaeth gan' mlynedd i 'nawr?

Y gwyr boneddigion sy'n mhob man o'r wlad,
Yn ymloi 'mhob drygioni heb argoel gwellhad;
Pwy gwirion, diniwed, hwy farnant i'r llawr,
B'le bydd eu holl rhyfyg gan' mlynedd i 'nawr?

Mae barnwr y Gyfraith, heb yngan paham,
Dan led bod yn gyfiawn yn barnu ar gam;
Am wneuthur anghyfraith a chamwedd tra mawr,
Pwy sydd a'i gwobrwya gan' mlynedd i 'nawr?

Cyfreithwyr am arian a dyngant yn groch,
Bod llong yn gawl erfin, a'r niwl yn ŷd coch;
Er cymmaint eu celwydd a'u hocced mor fawr,
Beth fydd o'u hanudon gan' mlynedd i 'nawr?

Y Ffeirad trachwantus, mae yntau'n y rhif;
Ni phris am y ddafad ar ol cael ei chnif,—
Fe fyn gael y ddegfed a'i alw'n wr mawr;
B'le bydd e'n degymu gan' mlynedd i 'nawr?

Mi enwais fel hyn y rhai pena sy'n bod,
Yn hyn o fyd brwnt gan y diawl dan ei nod;
Yn dal am eu trachwant sy beunydd mor fawr,
Hwy fyddant yn uffern gan' mlynedd i 'nawr!

Os gofyn rhyw landdyn pwy wnaeth hyn o gân,
Hen Fardd o Forganwg a'i ben fel y gwlân:
Er darfod yn llwch, a'i wallt gwyna'n y llawr,
Bydd fyw ei wirionedd gan' mlynedd i 'nawr.

HOPCIN Y GWEHYDD, O FARGAM,
Circa 1700.

YR HYN ACHOSODD Y DIWYGIAD PROTESTANAIDD.

(Parhad o'r rhifyn diweddaf).

Esgynodd y Pab i'r fath awdurdod ac uchder tymhorol fel yr hawliodd yn ddiammodol bob gwarogaeth a theyrnged iddo ei hun oddiar law holl lywiawdwyr a phenau coronog Ewrob; ac yn mhlith teyrnasoedd y byd wele deyrnas fechan Lloegr yn ufuddhau ac yn ymostwng yn dawel i allu Eglwys Rhufain, ac wele ei brenin yn ymostwng i gydnabod yn wasaidd awdurdod ac uchafiaeth dymhorol y Pab, ac yn addaw talu teyrnged drom iddo mewn canlyniad, rhag ofn cael ei ysgymuno, efe a'r deyrnas, am anufuddhau i'w honiadaeth. Arian oedd Pabau Rhufain yn ei geisio, ac arian a fynent gan bawb; ac fel y dywedasom yn flaenorol, y mae un eithafion yn creu eithafion arall. Felly yn gywir gyda gormes a honiadaeth y gwyr eglwysig: yr oedd eu honiadaeth i bob awdurdod tymhorol, a'u haerllugrwydd yn hawlio tâl arianol am bob gwasanaeth ysprydol, yn prysuro dydd trancedigaeth eu gormes ac yn hyrwyddo y ffordd i ddiwygiad cyffredinol, yn gymdeithasol, gwladol, ac eglwysig.

Mewn perthynas i ariangarwch y gwyr eglwysig hyn, cawn fod, oddeutu canol y pedwerydd canrif ar ddeg, gyfanswm yr arian a delid o'r deyrnas hon i'r Pab yn bum' gwaith mwy nâ'r hyn a delid at gynnaliaeth y brenin a'i deulu. Hefyd, yr oedd offrwm y blaenffrwyth yn fwy andwyol i'r wladwriaeth yn gyffredinol nâ holl dreuliau rhyfel y brenin yn ei ryfelawd yn Ffrainc. Ond nis gall sefydliad bydol sefyll heb gael ei gynnal gan adnoddau bydol, ac felly crefydd gwyr Rhufain. Dyma enghraifft arall:—Mae y ffaith fod y gochl *(pall)* a wisgid y pryd hwnw gan Archesgob Caergaint yn werth £1,200, yn enghraifft o'u cribddeiliaeth a'u simoniaeth anniwall, a thalodd Archesgob York y swm o £10,000 am ei gochl, yr hwn swm yn ein harian ni a gyrhaeddai y swm enfawr o £100,000. Dywedodd un dyn am gribddeiliaeth ac ariangarwch y gwyr eglwysig fel hyn:—"Os yw Rhufain, fel pen ac awdurdod tymhorol ac ysprydol yr Eglwys Gristionogol, yn cyfranu rhywbeth er lles cyffredinol, y mae mewn teganau diles a diwerth. Ond myn hi yn eu gwanc anniwall eich aur a'ch arian a'ch gwasanaeth, ac ni rydd ddim yn gyfnewid am hyny ond geiriau gwagsaw. Eglwys Crist, yn ol fel y dangosir gan y gwyr eglwysig Rhufeinig, a lywodraethir gan arian. Gall y mwyaf annuwiol fyned i'r nefoedd am arian ac osgoi myned i uffern, a pharhau yn ei ddrygioni, *am arian*. Honant awdurdod ar y ddau fan. Nid oes coron na theyrnwialen un penadur na thywysog yn sefydlog ac etifeddiaethol, oblegyd os cynnygia rhyw ymhonwr ddigon o arian i'r Pab, bydd yn sicr o gael ei gefnogaeth i ddiorseddu y neb y myno, a thrawsfeddiannu y goron a'r orsedd." Dyma y sefyllfa ofnadwy yr oedd cymdeithas ynddi y cyfnod dan sylw. Y mae ymgydnabyddu a ffeithiau hanesiol y cyfnod hwn yn codi gwrid yn ein gwynebau wrth eu darllen, am fod cymdeithas wedi syrthio

i'r fath waseidd-dra ac ofergoeledd fel ag i dderbyn awdurdod honiadol y gwyr eglwysig mor ddiwrthwynebiad.

Bellach, y mae y gallu eglwysig wedi cyrhaedd ei uchafnod mewn pob haerllugrwydd honiadol, ac mewn cyflawni pob anfadwaith er cynnal eu hawdurdod a'u hurddas unbenaethol; ond y mae ar ddod i ben: y mae eu gormes a'u trahausder yn dechreu myned yn annyoddefol gan bawb, eu rhagrith a'u Phariseaeth yn felldith ac yn rheg yn ngenau y werin a'r llys, a'u gloddest a'u godineb mor amlwg a chyhoeddus fel y ffieiddir hwy gan y werin a phawb sydd ynddynt ronyn o barch i foesgarwch cymdeithasol. Bellach, y mae y werin dlawd yn dechreu gwaeddi gan eu gormes a'u traha, ac appeliant at eu harglwyddi tymhorol am nawdd a gwarogaeth o'u crafangau. Ar hyn dyma'r arglwyddi tymhorol yn appelio at y Senedd a'r llys, ac yn y flwyddyn 1366 dyma Edward III. a'i Senedd yn deddfu yn erbyn ymhyriad y Pab a materion mewnol y deyrnas; a'r ergyd cyntaf a roddodd i'r gallu eglwysig oedd gorchymyn i'r offeiriaid estronol oeddynt wedi llanw y wlad ac atafaelu pob bywioliaeth fras, ymadael o gylch y deyrnas mewn byr amser.

O'r diwedd, dyma'r ergyd cyntaf wedi ei roddi, a hwnw gan y gallu llywodol a'r Brenin Edward III. yn ei gefnogi. Yn y Senedd hon hawliai cynnrychiolwr y Pab atebiad diamwys i'r gofyniad haerllug hwn, sef, "Pa un ai y Pab ai y brenin oedd i fod yn benadur Lloegr?" Ni fu gofyniad erioed mwy beiddgar a thrahausfalch yn ei egwyddor a'i amcan. Eithr atebodd yr holl Senedd yn ddifloesgni, "Nid y Pab, ond y brenin." A'r atebiad clir a diamwys hwn o eiddo y bendefigaeth lywodol a benderfynodd am byth dynghed ac awdurdod y gallu Rhufeinig yn Lloegr, er y ceisiodd godi ei ben lawer gwaith wedi hyny. Nid oedd waith iddo, oblegyd methiant hollol a fu ei ymgais bob tro.

Bellach, dyma y werin a'r arglwyddi tymhorol wedi cyfuno eu galluoedd ac wedi magu digon o ddewrder i wneyd gwrthsafiad yn erbyn honiad y gallu mwyaf haerllug a mwyaf peryglus erioed a fu ar wyneb y ddaear, ac er cryfed oedd ei safle, ac er cadarned ei alluoedd, y mae yspryd gwladgarol, cenedlgarol, ac annybynol y Genedl Brydeinig wedi beiddio rhoddi hér iddo, ac wedi ei orchymyn i ymadael a'r wlad. Mae yr holl wlad yn deffroi i'r ymdrech sydd i gymmeryd lle rhwng y gallu eglwysig a gallu tymhorol a llywodol y deyrnas. Mae y cri yn codi am ddiwygiad, ond pwy sydd a digon o ddewrder yn ei enaid i'w gario allan i fuddugoliaeth? Dyma'r ffordd wedi ei hagor, ond pwy a feiddia ei cherdded? Dyma y rhwystrau wedi eu dymchwelyd, ond pwy a gymmer arno y cyfrifoldeb o'r flaenoriaeth i lanhau y wlad o'r afiechyd moesol oedd yn ffynu ynddi? Mae y wlad yn barod i'r ymdrech, y Senedd yn cydsynio fod eisieu diwygiad grymus ac effeithiol, a'r brenin yn barod i gefnogi unrhyw beth er lles cyffredinol y deiliaid; ond pwy a gymmer at yr arweinyddiaeth? Mae y gallu eglwysig yn ymgynddeiriogi ac yn bytheirio melldithion ofnadwy a thragwyddol ar y deyrnas, ond nid yw yr oll ond bygwth heb allu dial.

Yn annysgwyliadwy, yn nghanol y cythrwfl y mae un dyn yn codi a feiddia gymmeryd at yr arweinyddiaeth, a hwnw yw yr anfarwol John Wyclyff, offeiriad Eglwys Lutterworth. Neidiodd i'r adwy, a safodd yno ei hun. Dyma Hercwlff y Diwygiad Protestanaidd yn Mhrydain. Efe oedd wedi ei godi gan Dduw i lanhau y wlad o'i budreddi moesol. Yr oedd wedi ei gynnysgaethu a phob cymhwysder i fod yn wladweinydd Cristionogol: yr oedd yn ymwybodol o'r holl drafodaeth, yn bresennol yn y Senedd rag-grybwylledig, ac yn gwrando ar yr areithiau brwdfrydig a draddodwyd yno gan yr arglwyddi a'r barwniaid yn erbyn honiadaeth y Pab, a bu mor gyflym a chymmeryd nodynau o'r cyfryw areithiau ar y pryd, y rhai a drosglwyddwyd i ni fel etifeddiaeth werthfawr a rhagorol. Dyma'r dyn oedd i ymladd a gallu eglwysig Rhufain. Dyma'r dyn oedd i roddi cyfeiriad i rydd-feddyliaeth yr oesau dylynol, ac i roddi symbyliad egniol a pharhaol i hawlfraint bersonol i rydd-weithrediad barn a chydwybod. Hauodd hadau cydraddoldeb, a phlanodd blanigion rhyddid yn y wlad; ac er pob dyfais o eiddo gormeswyr yr oesau i'w diwreiddio, y maent yn tyfu ac yn blodeuo yn brydferth a phersawrus drwy holl gylchoedd cymdeithas hyd y dydd hwn.

Yr oedd ei enaid yn orlawn o aiddgarwch sanctaidd dros ei Waredwr Bendigedig, a'i galon yn berwi gan eiddigedd dros urddas a chyssegredigrwydd Eglwys y Duw Byw, yr hon oedd ar y pryd hwnw yn cael ei mathru yn y tir gan haid o ddyhirwyr diog a gloddestgar. Yr oedd efe yn ymwybodol a chyfarwydd a holl arferion annuwiol yr offeiriaid, a'u hannghymhwysder dybryd fel corff o swyddogion o herwydd eu llygredigaeth a'u haflendid i weinyddu yn y pethau sanctaidd. Gwyddai am eu rhagrith a'u Phariseaeth ddigamsyniol, yn gystal ag am eu gorthrwm a'u cribddeiliaeth a'u trachwant am olud a moethau. Gwyddai am yr oll, ac yr oedd ei fod yn gwybod am eu harferion llygredig yn ei gymhwyso yn fwy-fwy i'w gwrthwynebu ac i'w gosod i lawr am byth. Ie, dyma'r dyn a neidiodd i'r adwy beryglus, ac efe oedd i fod yn gyfrwng yn llaw Duw i ddwyn yr Eglwys i'w lle ac i'w safle priodol, oblegyd nid yw Duw yn gadael ei Eglwys yn ddidyst ar y ddaear. Er pob dyfais, brad, a chynllwyn o eiddo y gwyr eglwysig, gorfu arnynt gilio i'w cilfachau rhag cywilydd bythol, dyddimwyd eu hawdurdod a'u trahausder, a phregethwyd i werin Lloegr am y tro cyntaf erioed ryddid barn a chydwybod—rhyddid i feddwl, barnu, a gweithredu yn ol argyhoeddiad cydwybod, yr hyn oedd beth newydd i'r byd y pryd hwnw. Dadleuwyd egwyddorion rhyddid cydwybod a chydraddoldeb cymdeithasol mor drwyadl gan Wyclyff a'i ganlynwyr, fel y methodd holl ystranciau direidus y Babaeth a'u dileu byth mwyach.

Er i'r gallu eglwysig fod yn ddigon beiddgar i godi corff maluriedig Wyclyff o'i fedd a'i losgi, gan faint eu cynddaredd tuag ato, bu taflu lludw ei gorff i'r afon yn andwyol iddynt. Os nad wyf yn ofergoelus, credaf y buasai yn well iddynt adael i'w gorff bydru a malurio yn ei fedd, neu ynte gladdu y lludw yn hytrach na'i daflu i'r afon, oblegyd Duw a ŵyr! dichon ei fod ar hyd gwyneb y dyfnder hyd heddyw,

yn dyst i'w herbyn, ac yn effeithio fel cyffrawd dros y gwirioneddau a hauodd efe yn y pedwerydd canrif ar ddeg, ffrwyth melus y rhai ydym ni heddyw yn ei fwynhau mor ogoneddus. Safwn yn y rhyddid a gostiodd mor ddrud i'n tadau, parchwn y gwirionedd roddodd fodolaeth i fflamiau Smithfield, gwnawn ein rhan dros iawnder, a bydd ein coffadwriaeth yn fendigedig gan ein holafiaid.

GWERNYFED.

"CONCORDAT" Y PARCH. HUGH PRICE HUGHES, M.A.

NID yw, fe ddichon, yn hyspys i bawb o ddarllenwyr YR YMOFYNYDD mai Wesleyad enwog a dylanwadol yw Mr. Price Hughes, a'i fod yn enedigol o dref Caerfyrddin, ac yn fab i Dr. Hughes oedd yn byw yno hyd yn ddiweddar iawn; ond dyna'r ffaith, ac etto ffaith yw nad yw yn ei gwneuthur yn un rhuthyn haws i ni oddef y sarhad a geisia daflu arnom fel enwad o grefyddwyr. Gwnaed cais gan un unwaith i "appelio oddiwrth Phylip yn feddw at Phylip yn sobr," ac yn fynych iawn gellir dysgwyl i appel felly fod yn effeithiol. Nid tebyg y caiff un appel o'r fath effaith ar Mr. Price Hughes. Y mae'r enw Undodwr yn cael yr un cyffelyb effaith arno ag y dywedir fod clwtyn coch yn ei gael ar y tarw—mae yn aflonyddu ei *equilibrium*, neu, "dda'i gymhesur fantol."

Tybia Mr. Hughes yn gydwybodol ei fod wedi cael gafael mewn meddyginiaeth effeithiol i symmud y clefyd sectol; cred fod y prif enwadau yn unfryd unfarn ag ef, ac am yr enwadau bychain a'r ychydig ereill ydynt annghytunol, gellid defnyddio tipyn o *gentle pressure* a'u gorfodi. Nid oes cais wedi ei wneyd i esponio y gwahaniaeth mewn egwyddor rhwng yr orfodaeth y carai efe ddefnyddio a'r un hono a ddefnyddid gynt gan y Babaeth, ac yn ddiweddarach gan awdurdodau Eglwys Loegr. Eisieu cael y *thin end of the wedge* i fewn sydd; yna'n raddol fe obeithir cael y gweddill, ac wedi'n 'sgreched a 'sgrecho. Llwyddodd y draenog i gael myned i fewn i wâl y cwningod; ond pan aeth presennoldeb y draenog yn achos annghysur i'r "bobl nad oeddynt nerthol," nid y draenog orfu ymneillduo er mwyn heddwch.

"Concordat," neu sylfaen cytundeb Mr. Price Hughes yw, "Credo yr apostolion." Deil Mr. Hughes fod pawb oddigerth rhyw ddyrnaid bychan yn barod i dderbyn y "gredo" hono; ond a ydyw yn beth iawn, a ydyw yn beth rhesymol, a ydyw yn Gristionogol, i orfodi un enwad nad pa mor fechan, neu un person nad pa mor ddistadl, i wneuthur trais ar gydwybod arall? Fe addawir ini "Adran Cydwybod," neu "*Conscience Clause*," yr hyn nid yw ond yn dyblu'r cam—"adding insult to injury."

Melldith ac achos annghydfod yw y credoau wedi bod trwy yr oesau; ac nid yw waeth pa un o'r tair, nid ydynt o nifer y pethau

" a berthynant i heddwch, a'r pethau a berthynant i adeiladaeth ein gilydd."

Y credoau hyn ydynt " Diana " yr oes hon, a gellir meddwl wrth swn ac wrth ymddygiad y rhai a'u pleidiant, fod ganddynt brawf diymwad eu bod wedi disgyn yn grynswth o'r nefoedd, o bossibl oddiwrth Jupiter; tra yr ydym ninau am brofion diamwys o'u tarddiad a'u hanes. Nes caffom hyn, nis gallwn lai na chyfrif eu bod yn debyg i'r " dduwies fawr Diana yn ddyddim "; a gwnawn hyny er i obaith elw rhywrhai fyned i golli.

Rhif credoau yr eglwys wladol, at gynnal yr hon y gorfodir ni i gyfranu, yw tair, sef credo yr apostolion, credo Nicea, a chredo Sant Athanasius, a chyda chenad y golygydd yr ydym am wneuthur ychydig sylwadau ar yr un gyntaf a elwir, a gamelwir yn

GREDO YR APOSTOLION.

Nid ydym yn addaw y gwnawn gredu, hyd y nod pe gellid profi fod y gredo wedi dyfod oddiwrth yr apostolion. Nid oedd yr apostolion yn anffaeledig; nid oeddynt yn wastad yn cytuno a'u gilydd, ac nid oes cais yn cael ei wneuthur i gyssylltu'r gredo â rhyw apostolion yn fwy na'u gilydd. Y gwir yw nad oes a fyno'r gredo a'r apostolion o gwbl, nis gwelwyd hi erioed gan un o honynt, a thrais ar synwyr cyffredin ac ar bob cyfiawnder a gonestrwydd yw ein gorfodi i dalu tuag at ddysgu'r gredo i blant ein hysgolion fel pe byddai yn eiddo'r apostolion. Dyma beth yw twyll a dichell na ddylid ei oddef os gellir yn rhyw fodd beidio. Etto, beth am y gredo ei hunan? Wel, fel cywreinbeth nid oes genym wrthwynebiad mawr iddi. Rhy debyg y cyfrifwn hi i almanac newydd. Edrychwn arni bob yn baragraph:

"Credaf yn Nuw Dad Hollgyfoethog, creawdwr nef a daear."

Y mae hynyna yn burion, a gallaf ei adrodd gyda phob gwresogrwydd calon; ond sut y dywedir " Hollgyfoethog," *Almighty* yw y Saesneg, *Pantocratora* yw y gair gwreiddiol. Etto, nid oes dim gwrthwynebiad.

"Ac yn Iesu Grist ei un Mab ef, ein Harglwydd ni."

Purion etto, ond i mi gael gosod fy esponiad fy hun ar y geiriau. Tipyn yn afrwydd yw y Gymraeg yn darllen. A ydyw "ei *un* Mab," yn golygu *unig* fab? Sut *unig*, os ydym oll yn blant i Dduw.

"Yr hwn a gaed trwy yr Yspryd Glan, a aned o Fair Forwyn."

Fe'i ganwyd, yn ddiamheu, ac fe'i ganwyd o Fair. Hyny yw, Mair oedd ei fam. Ond beth ydym i olygu wrth Mair *Forwyn*? Er mwyn Mair ei hunan, gwell genyf fi gredu mai Joseph oedd ei dad a Mair ei fam, na chredu yr addysg boblogaidd ar y pwnc.

"A ddyoddefodd dan Pontius Pilatus, a groeshoeliwyd, a fu farw, ac a gladdwyd."

Ymddengys hyn oll yn debyg i wir, ac nid wyf yn cael yma ddim sydd yn anhawdd ei dderbyn.

"A ddisgynodd i uffern."

O'r goreu. Ond a ydys yn cytuno ar y pwnc? Os yw y gair uffern yn dynodi y *bedd*, nid yw y gair disgyn yn addas. Nid rhyw dwll fel gyda ni oedd y beddau Iuddewig. O'r tu arall, os golygir y pwll diwaelod, cyfarfyddwn ag anhawsderau mwy fyth, ac edrych ar y pwnc oddiar safle gwyddor ddiweddar. Sut mae esponio? Beth yw ystyr yr ymadrodd pwll *diwaelod?*

"Y trydydd dydd y cyfododd o feirw."

Y mae yma yn ddiamheu anhawsderau mawrion, y cyfryw nad yw ond ynfydrwydd i drethu meddwl anaddfed plentyn â hwy.

"A esgynodd i'r nefoedd; ac y mae yn eistedd ar ddeheulaw Duw Dad Hollgyfoethog."

Dylid manylu ac egluro llawer cyn dwyn hyn oll o fewn cyrhaedd amgyffredion plentyn, heb son dim am Archesgob Caergaint. A *esgynodd* i b'le? Sut y gellir lleoli nefoedd, pan y gwyddom fod i'r geiriau *i fyny* ac *i waered* ystyr gwahanol am ddeuddeg o'r gloch y dydd a deuddeg o'r gloch y nos? A sut y gellir lleoli *deheulaw* yr Hollbresennol Dduw, a chan fod yr Iesu yn Dduw, ac yn meddu holl briodoleddau Duw, sut y gellir esponio yn eglur i'r plentyn bach y ffaith (?) grybwylledig fod yr anfeidrol Iesu yn eistedd ar ddeheulaw ei anfeidrol Dad. Problem yw hwn fydd yn gofyn pen mwy clir nag eiddo athrawon cyffreddin ein hysgolion byrddol. Y mae mor rhesymol dysgu mai Llanbedr yw Llandyssul, mai du yw gwyn, neu fod dau a dau yn gwneuthur pump!

"Oddiyno y daw i farnu y byw a'r meirw."

Wele yma etto ddigon o asgwrn cynhen.

"Credaf yn yr Yspryd Glan."

Gwir; ond i mi gael gosod fy ystyr fy hun ar yr ymadrodd; ond nid mewn trydydd person yn yr Undod Dwyfol, sydd yn dra-gwyddol, yn Hollalluog, &c.

"Yr Eglwys Lân Gatholig."

Pa un—Groeg, Rhufain, neu Loegr? Y mae y rhai hyn oll wedi esgymuno y naill y llall, a llawer gwaith wedi profi eu hunain yn amddifad o yspryd Pen Tywysog a Pherffeithydd y Ffydd.

Cymundeb y saint."

Nid wyf yn sicr fy mod yn deall, os nad yw y saint yn wahanol iawn i eglwysi'r ddaear, y mae cydrhyngddynt fwy o annghydfod nag o gymundeb.

"Maddeuant pechodau."

Credwn a gobeithiwn fod rhyw ystyr i'r geiriau hyn. Nid yn llaw yr offeiriad y mae'r gallu i faddeu fodd bynag.

"Adgyfodiad y corff."

Ar yr olwg gyntaf ymddengys rhywbeth yn swynol yn y syniad, ond wedi ail feddwl, gofynwn, Pa gorff—yr hen, ynte'r ieuanc? A sut am gyrff y cloff a'r anafus, &c. Na, na! Gwell genyf gylymu fy ffydd wrth y syniad o barhad yr yspryd—yr enaid; wedi ei buro a'i berffeithio, gobeithiwn.

"A'r bywyd tragwyddol, Amen."
A dyweded yr holl bobl, Amen.

Ond wrth derfynu, gofynwn, pa reswm, pa synwyr, sydd mewn dyrysu meddyliau plant bach â rhywbeth fel hyn? Nid crefydd yw rhywbeth fel hyn; ac o'r braidd y gallwn gredu y gwna annghydffurfiaeth gadarn Prydain Fawr ymgrymu i'r ddelw newydd hon o eiddo Mr. Price Hughes. *Hands off!* chwi offeiriaid cydffurfiol ac annghydffurfiol, ac ar eich perygl na osodwch iau eich hen gredoau drygsawrus ar ysgwyddau ein pobl ieuainc. Dysgwch y ffordd i sillebu "cyfiawnder" yn iawn, os gwelwch yn dda.

ALMERICUS.

DAU ENGLYN I GAPEL-Y-GROES.

CYDFUDDUGOL.

WELE fad adeiladwaith—a godwyd
Yn gadarn yr ail-waith;
Tyma sedd Tomos ddwywaith,
Fu'n moli Ner amser maith.

Mae Capel-y-groes er's oesau—er lles
I'r llu mawr aelodau
I chwilio'r gwir, chwalu'r gau
O gariad, am y gorau.

Manchester House, Llanybyther. T. GWENOG TOMOS.

ADDYSG GREFYDDOL EIN PLANT.

"A ydyw addysg grefyddol ein plant yn cael y sylw a ddylasai gael?" A oes rhyw athraw Ysgol Sul yn ein plith nad yw, ar ryw adeg neu gilydd, wedi cael achlysur i ofyn y cwestiwn hwn iddo ei hun? Yr wyf wedi cyfarfod â llawer o honynt, a'r farn gyffredin yw, nad ydym yn gwneyd y cwbl a allem ei wneyd yn y cyfeiriad hwn. Mae'n plant yn cael eu dwyn i fyny mewn anwybodaeth o'n hegwyddorion, yn cael eu hanfon allan i'r byd heb gael eu harfogi â'r wybodaeth hono a'u galluogent i sefyll i fyny dros grefydd eu tadau. Nid rhyfedd, gan hyny, pan y mae'r cyfryw yn myned allan o'n gafael a'n cyrhaedd, eu bod yn methu dal eu tir, ac yn fuan yn uno â'r enwadau uniongred. Mae genyf ar fy meddwl enwau llawer iawn o'n cyfoedion, y rhai oeddynt yn ffyddlon yn eu mynychiad o'r Ysgol Sul a'r cyfarfodydd crefyddol pan gartref, ond can gynted ag yr aethant allan o'u cartref, yn colli pob sel, ac yn ein gadael. Yr wyf lawer gwaith wedi gofyn i mi fy hun, Beth yw'r achos o hyn? A'r unig ateb a fedrwn gael gafael ynddo oedd, nad oedd ganddynt y wybodaeth hono, heb yr hon nas gellid dysgwyl iddynt i fod yn ffyddlon; a gwna pob un sydd yn anwylu Undodiaeth gydnabod fod hyn yn ddiffyg. Yr wyf wedi bod yn mynychu'r Ysgol Sul er pan yn blentyn. Buais ddegau o weithiau yn un o ddau mewn Ysgol Sul yn un o'n capelau. Fy nghyd-ysgolor, neu yn hytrach fy athraw, oedd hen wr; a chofus genyf am yr oriau difyr a dreuliais yn ei gwmpeini, am ei ymdrech i fy nysgu, ac am y pleser (i bob ymddangosiad) a gaffai yntau yn y gwaith. Pan y sylwn wrtho weithiau fod yr ysgol yn fach, dyfynai ar unwaith yr adnod, "Lle mae dau neu dri," &c., ac yna dechreuai ar ei waith gyda chymmaint o aiddgarwch â phe buasai ganddo lonaid capel o ysgolheigion yn lle un. Cofus genyf am ei ymdrech i fy ngosod i ddeall unrhyw fater a ddarllenid yn y Testament Newydd (yn fynychaf yn yr Efengylau); a phan y meddyliai ei fod wedi llwyddo, ymdaenai gwên foddhaus dros ei wyneb, yr hon oedd yn peru i mi annghofio nad dim ond ni ein dau oedd yn bresennol, a gwneyd yr Ysgol Sul yn lle yr hoffwn fyned iddo. Y canlyniad o hyn oedd, pan y daeth rheidrwydd arnaf i fyned i gymmydogaeth arall, lle nad oedd un capel genym o fewn amryw filldiroedd, fy mod yn gwybod rhywbeth am Undodiaeth—yn gwybod digon i wrthsefyll yr ymdrechion a wneid i beru i mi ŵyro allan o'r ffordd; ac er i mi dreulio cryn dipyn o fy amser mewn cymmydogaeth lle nad oedd ond capeli uniongred i'w cael, ni theimlais erioed un chwant anwybyddu'r gwersi a gefais gan fy hen athraw yn yr Ysgol Sul; a phob tro y safaf uwchben man fechan ei fedd, neu y daw y goffadwriaeth am dano yn fyw i'm cof, daw teimladau diolchgar a chynes i fy mynwes am yr addysg a gefais ganddo yn moreuddydd fy oes. Nid yn aml y cyfarfyddir ag athrawon mor gymhwys i'r gwaith a'r hen gyfaill uchod; ac efallai fod prinder athrawon yn cyfrif am y

ffaith nad yw'r addysg grefyddol a gyfrenir yn ein hysgolion mor drwyadl ac effeithiol ag y dymunem iddi fod. Perthyna i bob un o'r capeli ddynion cymhwys at y gwaith mor bell ag y mae a fyno gwybodaeth a'r mater; ond mae'r sel a'r ymroddiad ag sydd braidd mor angenrheidiol a gwybodaeth er gwneyd athraw llwyddiannus, yn absennol, o herwydd, er yn ddyn gwybodus, mae athraw ansicr yn ei fynychiad o'r Ysgol Sul yn fynych yn gwneyd mwy o ddrwg nag o les. Yr wyf yn fynych wedi sylwi gymmaint o ddylanwad anffafriol mae absennoldeb athraw yn ddwyn ar ddosparth. Mae'n wir fod yr amser yn brin i'r athrawon barotoi gwaith ar gyfer yr ysgol neu'r dosparth; ac yn y fan hon y daw'r angen am lyfrau pwrpasol at y gwaith i'r golwg yn amlwg iawn. Yn y Saesneg mae digon o lyfrau addas wedi eu cyhoeddi i'r dyben o gynnorthwyo ein hathrawon. Yn wir nid oes un enwad crefyddol yn Lloegr, mi gredaf, mor gyfoethog o lenyddiaeth o'r natur hyn a'r enwad Undodaidd. Efallai fod yr amser ar bwys pan y bydd ein pobl ieuainc yn ddigon hyddysg yn y Saesneg fel ag i fod yn alluog i wneyd defnydd helaeth o'r llyfrau hyn; ond nid yw hyn etto; ac ar hyn o bryd mae ein llyfrau Cymreig o'r natur hyn yn brin. Nis gallwn enwi dros dri neu bedwar ar y goreu; ac y mae un neu ddau o'r rhai hyny yn anaddas i blant ieuainc; a chyn y gellir gwneyd llawer o gynnydd yn addysg grefyddol plant ein Hysgolion Sul, rhaid, yn ddiamheu, cyflenwi'r diffyg hwn. Hefyd, ai ni fyddai yn bossibl rhoddi yn mhob rhifyn o'n hunig fisolyn (Yr Ymofynydd) amlinelliad o wersi ar gyfer pob Sul yn y mis ar ryw ran o'r Testament Newydd, fel y gwneir gan amryw o'r enwadau union-gred. Trwy hyn byddai pob Ysgol Sul yn gwneyd yr un gwaith; a thrwy hyn hefyd crëid rhyw gymmaint o drefn yn mhob Ysgol Sul, yn lle fel y mae yn awr—pob dosparth yn gwneyd ei waith yn hollol annybynol ar y dospeirth ereill. Buasai hyn yn gam yn yr iawn gyfeiriad, ac yn drefniad fyddai yn sicr o wneyd yr addysg a gyfrenir yn fwy trwyadl, ac hefyd yn tueddu i greu dyddordeb yn mhob aelod o'r Ysgol yn y gwaith fydd mewn llaw. Mewn erthygl fer arall, cawn sylwi beth sydd wedi ei wneyd gan yr enwadau uniongred yn y cyfeiriad hwn; ac yna, ar ol hyny, nodaf allan beth a ystyriaf ellir wneyd yn ein plith ni yn amgen nag a wneir yn awr.

Athraw.

FY MHROFIAD YN NGHYMRU.

Yn ystod yr ugain niwrnod a dreuliais yn Nghymru yn mis Medi diweddaf, gallaf ddweyd na ddarfu i mi erioed, yn holl gwrs fy mywyd, dreulio gwyliau a fuont ar y cyfan mor ddymunol, ac a roddasant i mi gymmaint o fwynhad wedi hyny. Yr unig ddiffyg gwirioneddol oedd fy anallu i siarad yr iaith Gymraeg, ac yr wyf,

bellach, yn rhy hen i ddechreu ei hastudio. Wrth son am oedran, feallai y ca Golygydd Yr Ymofynydd dipyn o ddyfyrwch pan y dywedaf wrtho fod lluaws o'i ddarllenwyr wedi tybied ei fod wedi gwneyd camsyniad dybryd wrth ddweyd fod Mr. Spears wedi ei eni yn y flwyddyn 1825. Rhaid mai 1835 neu 1845 oedd yn ei olygu, meddai un boneddwr. Atebais y cyfaill ag oedd yn siarad mor garedig wrthyf fod y Golygydd yn berffaith iawn, fy mod erbyn hyn yn driugain a deng mlwydd oed. Yr oedd fy nhad pan fu farw yn bedwar ugain, fy mam yn bedwar ugain a deg, a fy hen dadcu yn gant. Felly, fe welir nad oes nemawr o glod yn ddyledus i mi am fod mor gryf ac iach yn driugain a deg. Yr wyf wedi bod yn ofalus am fy iechyd, yn cael bob amser ddigon i'w wneyd, a phan wedi blino gofalwn am orphwys mewn pryd. Mae mwy o ddynion yn rhwdu allan nag sydd yn rhwbio allan; ac y mae rhywbeth yn ein bod yn ceisio byw bywyd defnyddiol bob dydd, ac ymdrechu gwneyd bywyd yn werth ei fyw. Yn yr ymgais i gyrhaedd y dyben hwn, mae y gwaith ag wyf wedi ceisio ei wneyd dros Undodiaeth wedi bod i mi yn ffynnonell o ddedwyddwch a mwynhad.

Un o'r argraffiadau dymunol a gefais wrth ymweled a'ch eglwysi oedd hwn: Wele yma yn Nghymru nifer cymharol fychan o eglwysi, yn nghyd a thorf gymharol fechan o bobl llawn brwdfrydedd yn gweithio ar gyfer yr un amcan a'm hunan; ac ymddengys i mi eu bod yn cyflawni eu rhan o'r gwaith gyda'r fath sel, a'r fath lwyrfryd calon, nes y mae fy enaid yn ymloni wrth edrych arnynt. Mi wn yn burion nad yw'r eglwysi sydd o amgylch i chwi ddim yn dymuno lwc dda i chwi. Yr ydym ni yn Lloegr yn sefyll yn neilldduedig ar ben ein hunain, yr un fath ag y gwnewch chwithau yn Nghymru; ac fe ddylai y cydymdeimlad hwn ein gwneyd ni yn fwy tyner, ac o fwy o help y naill i'r llall. Yr ydym wedi cydio mewn diwygiad mawr mewn duwinyddiaeth ag y mae angen gwaeddfawr am dano, a'r diwygiad hwnw yw, dwyn yr holl eglwysi, yn Babyddol ac yn Brotestanaidd, yn ol at symlrwydd addysgiadau'r Iesu, a'u cael i addoli yn y ffordd yr addolai efe. Gwyddom yn eithaf da na chawn ni byth mo'r undeb hwnw yn y byd Cristionogol hyd nes y byddo Undod hollol Duw yn cael ei gydnabod a'i ddysgu gan yr eglwysi, a'r Duw Goruchaf yn unig yn wrthddrych addoliad yn holl gynnulliadau Cristionogol y wlad. Tynghedir chwi a ninau i'r gwaith ardderchog hwn, a pha un ai llawer neu ychydig ydym wrth y gwaith hwn yn awr, fe ddylai ein huno ni a'n gilydd, a llanw ein calonau â llawenydd wrth ei gyflawni.

Drachefn, ymddangoswch i mi i ganu mor galonog, nes yr oedd megys ysprydoliaeth newydd i mi wrth gymmeryd rhan yn eich gwasanaeth. 'Allasai neb siarad am eich oerfelgarwch. Yr oedd y fath awyrgylch o grefydd bur yn mhob eglwys y darfu i mi ymweled â hi, nes peru i mi deimlo mai da oedd bod yno.

Pa faint o ddaioni a wnaeth yr anerchiadau a draddodais er addysgu a chysuro nis gwn, ond mi wn i mi dderbyn bendith

annhraethadwy oddiwrth y gwasanaeth crefyddol yn mhob capel y cefais y fraint o fod ynddo.

Drachefn, y fath olygfeydd arddunol a geir o ben eich mynyddoedd. Nid oes angen i neb fyned i wledydd pellenig y ddaear, yn groes i foroedd llydain, er mwyn gweled natur yn ei chyfoeth a'i gogoniant, a chael trem ar wlad lawn a phrydferth oddiar gopa bryn neu fynydd tal. Yn ystod fy ymweliad brysiog â Chymru bum ddwywaith ar drum uchaf eich bryniau heirdd, a chefais y fath eangder o weledigaeth nes peru i mi synu a chael fy swyno. Ond goddefwch i mi grybwyll un peth a'm boddhaodd yn fwy na dim, sef mai ar gopa y ddau fynydd yr wyf wedi son am danynt yr adeiladwyd dau gapel perthynol i'r enwad ag ydym ni yn anwylo, wedi eu gosod yn y manau anhygyrch hyny—dyna ddywedid wrthyf—fel y buasent yn lleoedd canolog i'r ffermwyr ac ereill am filldiroedd o gwmpas ymgyrchu yno o Sul i Sul. O ben un bryn gallaswn rifo ar un drem oddeutu saith ar hugain o ffermdai, y rhan amlaf o honynt filldiroedd oddiwrthyf; a phan yr ychwanegid fod cant neu ragor o'r Undodiaid didwyll ac addolgar hyn yn cychwyn yn aml ar doriad y wawr foreu Sul, ac yn ymgyfarfod yn y fan hon er cario yn mlaen gyfeillach grefyddol, ac hyfforddi eu gilydd yn y gwirioneddau sanctaidd, mae yn anmhossibl bron desgrifio y pleser a deimlwn wrth wrando ar yr hanes. Nid oedd pellder nac anhawsderau yn foddion i rwystro fy nghyd-Undodiaid yn Nghymru i fynychu eu cyfarfodydd ar y Sul. Cymmaint yw fy edmygedd o'r nodwedd odidog hon yn hanes Undodiaid Cymru, fel yr wyf wedi ei chrybwyll gyda balchder ragor nag unwaith oddiar pan yr wyf wedi dychwelyd adref. Yn wir, hon oedd un o'r gwersi goreu a ddysgais yn eich plith.

Yr wyf wedi crybwyll yn barod yn ein newyddiaduron Seisnig y parch a'r hwn y soniwch o hyd am y rhai a fuont yn llafurio yn eich mysg yn ystod y blynyddoedd, ïe, y cenedlaethau, ydynt wedi myned heibio; ac efallai y bydd yn ddyddorol ac yn ddymunol i chwi ddeall fy mod, yn nghwrs yr ychydig wythnosau diweddaf, wedi derbyn lluaws o lythyron caredig oddiwrth foneddigesau a boneddigion yn Lloegr, yn diolch i mi am y sylwadau a wnes o'ch eglwysi yn ein papyrau. Trueni nad ydym yn adnabod ein gilydd yn well. Gwnelai les i ni gyd. Wrth estyn cortynau eich gwaith da i ardaloedd newyddion, mae arnoch angen am ein help ni; ac mae arnom ninau angen am eich esiampl chwithau. Mae etto leoedd lawer, megys Casnewydd-ar-Wysg a Llanelli, gyda phoblogaeth enfawr, a allasent gael lles oddiwrth ein ffydd syml ac Ysgrythyrol ni. Hon yw'r ffydd sydd wedi ei harfaethu i fendithio, a gwneyd yn un yr holl genedloedd, fel ag y mae i uno yr holl eglwysi. Mi wn ddigon am fywyd crefydd yn India ac mewn gwledydd Mahometanaidd i wybod nas gall athrawiaeth y Drindod, yn nghyd a'r holl wrthuni sydd yn perthyn iddi, byth gael cydsyniad meddyliau gwyddonwyr ein gwlad, na chael ei mabwysiadu gan yr Iuddewon, y Mahometaniaid, y Parsëaid, a'r Brahminiaid

yn y gwledydd dwyreiniol. Yr wyf wedi sylwi hefyd yn ystod fy oes fer ar y modd y mae un athrawiaeth ar ol y llall yn cael ei gadael ar ol, a'i gollwng allan o brogram y sawl a elwir yn uniawngred, ac etto fel pob carreg mewn bwa, y mae pob athrawiaeth yn ymddybynu ar bob un, ac yn ymddybynu ar yr oll. Ymddengys yn awr fod iawnffyddiaeth wedi ei chyfyngu i Dduwdod Crist. Os cydsyniwch chwi a'r athrawiaeth hono, cyfrifir chwi yn uniawngred; ac os oes rhyw gorff o ddynion yn awyddus am wasgu ar ddynion bechod gwreiddiol, neu dân uffern, edrychai y mwyafrif o'r dynion hyn ar y cyfryw beth fel ymhyraeth digywilydd a'ch rhyddid a'ch breintiau fel Cristion. Yr wyf yn awr yn siarad yn gyffredinol am yr yspryd newydd, ac am y sawl sydd yn ei goleddu. Coeliwch hyn, er nad ydym ond ychydig, ac er nad yw ein heglwysi ond ychydig, yr ydym ar yr ochr sydd i ennill. Y maen a wrthodwyd gan yr adeiladwyr a ddaw yn ben y gongl.

ROBERT SPEARS.

NODYNAU GWASGAROG.

Y CYRDDAU CHWARTEROL.

NID ydym wedi derbyn un adroddiad o'r cyrddau hyn, a phrin y gallwn ymddybynu ar ein cof i roddi adroddiad cywir. Cynnaliwyd hwy yn Nghapel-y-groes, Hydref yr 2il a'r 3ydd. Bwriedid i'r cyrddau nos Fercher fod yn gwrdd diolchgarwch am y cynauaf. Dechreuwyd ef gan y Parch. T. A. Thomas, Pantydefaid, a phregethodd y Parchn. J. Thomas, Aberdar, a W. J. Davies, Llwyn. Cynnaliwyd nifer o bwyllgorau foreu Iau, ond, cyn belled ag yr ydym yn cofio, nid oedd y penderfyniadau o bwys mawr. Arweinid y gwasanaeth defosiynol gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca, a phregethwyd y bregeth bennodedig gan y Parch. T. Thomas. Yn y prydnawn, dechreuodd y Parch. T. J. Jenkins, Gellionen, y cyfarfod, a phregethodd y Parchn. J. Hathren Davies, Cefn, ac R. J. Jones, M.A., Aberdar. Dechreuwyd cyfarfod yr hwyr gan y Parch. Lewis Williams, Rhydygwin, a phregethwyd gan y Parchn. W. James, B.A., Y.H., Llandyssul, a Hathren Davies.

Yr oedd y cynnulliadau yn lluosog, y pregethau yn rhagorol, a'r holl gyfarfodydd yn llwyddiant perffaith.

YR EOG *(Salmon)*.

Y BYWIOG hardd eogyn!—am danat
Mae dynion yn erfyn;
Gwna y pysgotwr, ddewr ddyn,
Er dy ddal, hir dy ddylyn.

Pantteg. D. O. JENKINS.

Y LLYFR TONAU AC EMYNAU.

Mr. Gol.,—Gobeithio y caniatewch i mi ychydig bach o'ch gofod er egluro i'm cyfeillion ystad bresennol y casgliad o Donau ac Emynau yr wyf wedi ymgymmeryd ag ef. Mae, bellach, dros 12 mis er pan ddechreuais ar y gorchwyl, ac wrth fyned yn mlaen a'r gwaith teimlwn y cyfrifoldeb yn gyfryw fel yr appeliais am help oddiwrth Mr. W. Harries, a'r Parch. J. Hathren Davies, yr hwn a roddasant i mi yn hollol ewyllysgar. Am fisoedd yr ydym wedi bod yn llafurio yn galed, yn dethol, ac yn ymgynghori a phrif awdurdodau ar ganiadaeth y cyssegr, ac yr ydym wedi llwyddo cystal nes mae y rhan fwyaf o'r gwaith wedi ei chwmpasu, a gobeithiwn y byddwn yn alluog i ddwyn y llyfr allan o'r wasg ar fyr amser. Mae yn bleser genyf allu dweyd fy mod wedi derbyn help gwerthfawr o bob man ag y ceisiais am dano, ac yr wyf etto, cyn gorphen y casgliad, yn rhoddi gwahoddiad calonog i'n harweinyddion canu, ac i'n cyfansoddwyr i anfon i mi unrhyw dôn y carent ei gweled wedi ei chyhoeddi. Yr wythnos ddiweddaf derbyniais dair tôn oddiwrth Mr. Hevin Williams, Llanbedr; hyderaf y dylyna ereill ei esiampl. Yr wyf yn credu y gallwn addaw i'n heglwysi lyfr a fydd yn deilwng o'r sefyllfa flaenllaw a ddaliwn fel Undodiaid. Cyst y llyfr, yr hwn a fwriadwn alw yn *Perlau Moliant*, wedi ei rwymo yn hardd, oddeutu 1s. 9c. neu 2s.

Yr eiddoch,

Cefn Coed. D. Eiddil Jones.

Y COEDGEILIOG *(Pheasant)*.

Un gwiwlan yw'r coedgeiliog,—a'i lawer
Heirdd liwiau godidog;
Pêr yw cân y glân ei glôg
Yn nghanol coed gangenog.

Fe ydyw'r parchusaf edyn:—cedwir
Ceidwad i'w amddiffyn;
Er gwir hedd iddo'r gwyr hyn
Noswylia'i boenus elyn.

Pantteg, Llanybydder. D. O. Jenkins.

HUNAN-YMHOLIADAU THEODORE PARKER.

Gofynais i mi fy hunan y tri chwestiwn hyn:—

1. "A ellwch chwi geisio am yr hyn sydd dragwyddol wir, a pheidio cael eich dallu gan opiniynau unrhyw blaid, neu hyd y nod yr Eglwys Gristionogol; ac a ellwch chwi adrodd y Gwir hwnw a ddysgasoch, hyd y nod pan fyddo yn anmhoblogaidd, ac yn cael ei gashau?" Atebais, "Gallaf!" Y mae ieuenctid rhyfygus yn wastad yn hyderus.

2. "A ellwch chwi geisio yr Iawn Tragwyddol, a pheidio cael

eich blino gan arferion a defodau dynion—eglwysyddol, gwleidyddol, neu gymdeithasol; ac a ellwch chwi gyhoeddi yr Iawn Tragwyddol hwnw y cawsoch afael arno, gan ei gyfleu at fywyd ymarferol dyn—yn unigol ac yn gymdeithasol—er iddo eich dwyn i berthynas boenus a'ch cyd-ddynion?" Atebais etto yn frysiog, "Gallaf!"

3. "A ellwch chwi gario allan yn eich bywyd y Gwirionedd hwnw o eiddo y Deall, a'r Iawn hwnw o eiddo cydwybod, yn y fath fodd ag i beidio trwy eich caritor ddwyn gwaradwydd ar yr hyn a bregethwch a'ch gwefusau?" Bum mewn amheuaeth wrth ben hwn yn fwy nag un o'r lleill; ymddangosai'r temtasiwn i ddrwg personol yn gryfach nag oedd y temtasiwn i dwyll mewn proffes—o leiaf, yr oedd y pryd hwnw yn fwy amlwg. Ond atebais, "Gallaf dreio, ac mi wnaf."—*Theodore Parker's "Experience as a Minister.*

PLUFYN I DDANGOS CYFEIRIAD Y GWYNT.

Dyben y Credoau yw sicrhau undeb ffydd; ond a ydynt yn llwyddo i wneyd hyny? Y mae yn Eglwys Loegr, er gwaethaf y ffaith fod pob offeiriad wedi cymmeryd arno lw o ffyddlondeb i'r Credoau a'r Llyfr Gweddi, gymmaint o amrywiaeth ag sydd y tu allan i'r eglwys. Cyfrifai yr eglwys ei hunan unwaith yn wrthglawdd yn erbyn Pabyddiaeth, ond erbyn heddyw y mae ei phrif ddynion lawer o honynt wedi myned mwy na hanner y ffordd at Babyddiaeth. Dyma blufyn i ddangos pa gyfeiriad mae'r gwynt yn chwythu yn yr Eglwys Wladol. Mewn llyfr yn dwyn yr enw, *Ceremonials of the Altar*, gosodir pwys mawr ar fod dyn yn ymprydio o flaen y Cymundeb, a dywedir fod yr ympryd yn cael ei dori yn llawn cymmaint trwy gymmeryd *lozenge* neu lymaid o ddwfr â phe cymmerid pryd llawn. Wrth roi'r Cymundeb i'r claf cyfarwyddir fod yr offeiriad ar ol y fendith i olchi bysedd y claf ac wedi hyny rhoi'r dwfr iddo i'w yfed. Gellid meddwl y gwnai hyny godi cyfog ar ddyn iach chwaithach dyn claf—dyn yn ymyl marw yn gorfod yfed y dwfr yn yr hwn yr oedd wedi golchi ei fysedd. Ond y mae'r ystyr yn amlwg. Tybir ei fod yn angenrheidiol yn ol athrawiaeth babaidd y traws-sylweddiad. Beth ydyw yr athrawiaeth hono, tybed? A ydym yn myned i golli ein *tipyn synwyr cyffredin?*

YR AFAL.

Ai'r afal garai Efa,—i'w phriod
Gael ei ffrwyth i'w fwyta,
Wnaeth droi Eden heulwen Ha'
I yfed llid Jehofa.

Marwolaeth a ddaeth ar ddyn—yn haeddiant
Hen Adda! mae'n resyn!
Ai ein drych rho'dd 'n y cychwyn
Sail i Ior i selio hyn?

Gresyn i Naf i greu afal—yrai fyd
I ryw fôr o ddial!
Am drosedd Adda feddal
Gofyna Duw gyfiawn dâl.

Ai ni chawn, heb aberth iawnol—Iesu
Ein T'wysog grasol,
Roesaw Ner i oesi 'nol—
Tyfiant ein bywyd Dwyfol?

Bywyd Iesu trwy'r byd isod—yw'r rheol
Rhag rhiwiau coll pechod;
At ein Naf cawn Grist yn nod,
Ac yma ni gawn gymmod.

Trebannos. HY. MORGAN.

Manion ac Hanesion.

CAERDYDD.—Cynnaliodd y *British and Foreign Unitarian Association* ei chyfarfod blynyddol yn Nghaerdydd ar y 27ain, yr 28ain, a'r 29ain o Hydref. Fe ddichon y cawn ragor o'r hanes yn ein nesaf.

MERTHYR. — Traddododd y Parch. Copeland Bowie, un o aelodau mwyaf gweithgar Bwrdd Ysgol Llundain, ddarlith yn Nghapel Twynyrodyn ar "Neges Undodiaeth i'r oes bresennol." Prin y mae angen dweyd fod y ddarlith yn odidog.

MR J. M. THOMAS.—Mae Mr. Thomas, yr hwn oedd, hyd yn ddiweddar, yn gyfreithiwr llwyddiannus yn Mhontypridd, newydd roddi i fyny yr alwedigaeth hono er ymbarotoi ar gyfer y weinidogaeth Undodaidd. Y newydd diweddaf am dano yw, ei fod wedi ei dderbyn, ar ol arholiad manwl, yn efrydydd yn Manchester College, Rhydychain. Dymunwn iddo yrfa ddysglaer.

CYMMANFA GANU MORGANWG.—Yn Merthyr y cynnelir Cymmanfa Ganu 1896, ac y mae Mr. Eiddil Jones wedi ei ethol yn unfrydol i fod yn arweinydd.

ABERDAR. — Cynnaliwyd cyfarfodydd diolchgarwch am y cynauaf yn yr Hen Dy Cwrdd dyddiau Sul a Llun, Hydref 20 a 21. Yn absennoldeb y Parch. Ifor Davies, yr hwn a luddiwyd gan afiechyd ei fam, pregethwyd yn y boreu a'r hwyr gan y Parch. J. Hathren Davies, ac yn y prydnawn yn Saesneg gan y Parch. D. J. Williams, Merthyr. Yr oedd y cynnulliadau yn lluosog a'r gwrandawiad yn astud. Nos Lun gwasanaethwyd gan Dr. Griffiths, Pontypridd, yn dderbyniol iawn. Yr oedd y capel wedi ei addurno yn ddestlus â phob math o ffrwyth a blodau.

CAPELYFADFA.—Cynnaliodd yr eglwys hon gyfarfod i ddiolch am y cynauaf dydd Gwener, Hydref 11, pan y pregethodd y Parch. W. J. Davies, gweinidog y lle, yn darawiadol i'r amgylchiad. Casglwyd at y Cymdeithasau Undodaidd.

LLWYNRHYDOWEN. — Cymmerodd cyfarfod diolchgarwch yr eglwys hon nos Wener, Hydref 11, pan y pregethodd y Parch. W. J. Davies, gweinidog, i gynnulleidfa luosog. Casglwyd at y Cymdeithasau Undodaidd. *Ymweliad yr Ysgol.*—Yn ddiweddar bu Ysgol Annybynol Seion, Llandyssul, ar ymweliad â'r lle hwn. Dydd Sul, Hydref 13, ymwelodd Ysgol a Chôr y Llwyn a Seion, Llandyssul. Arholwyd yr Ysgol gan y Parch. T. Pennant Phillips, gweinidog y lle, yr hwn a ddywedodd ei fod yn falch i weled Ysgol y Llwyn, ac fod eisieu rhagor o undeb rhwng Cristionogion a'u gilydd. Canodd y cor emynau ac anthemau yn ardderchog dan arweiniad Mr. John Jones, Rhydowen, a boddlonodd yr Ysgol yr arholydd yn ei hatebion.

LLANFIHANGEL-AR-ARTH.— Y mae yr mae yr Undodiaid wedi dechreu cynnal

gwasanaeth yn y lle hwn. Bu y Parch. J. Davies, Alltyplacca, yn pregethu yn annedd-dy Maesyrhedydd, ac ar ddydd Sul, Hydref 13, bu y Parch. W. J. Davies, Llwynrhydowen, yn pregethu yn Pleasant View, annedd-dy Mr. John Rees, i gynnulleidfa fawr, canys nid oedd lle yn y ty i'r bobl a ddaethent yn nghyd. Credwn y dylid uno i gynnal gwasanaeth cysson yma, oblegyd trigianna nifer mawr o Undodiaid yn y cylchoedd hyn Bydd Mr. Thomas, Greenparc, yn pregethu yn Mhencader un o'r Suliau nesaf. Felly, fe welir fod y Mudiad Rhagblaen wedi cyrhaedd Sir Gaerfyrddin. Llwyddiant i'r mudiad.

CRIBIN.—Cynnaliwyd tê parti yn nglyn ag Ysgol Sul y lle uchod ar Hydref 7. Yn yr hwyr cynnaliwyd cyfarfod adloniadol dan arweiniad y Parch. E. E. Jenkins, Capelgroes, pryd yr adroddodd ac y canodd y plant ac ereill amryw ddarnau. Trodd y cyfarfod allan yn llwyddiant perffaith fel asfer Yr oedd yr wyl hon yn gwasanaethu fel cyfarfod agoriad yr ysgoldy newydd, yn yr hwn y cariwyd pob peth yn y blaen. Mae diolch yn ddyledus i bawb a gymmerasant ran yn y cyfarfodydd am eu gwasanaeth.—*Un oedd yno.*

ALLTYPLACA.—Hydref 13, talodd Ysgol Sul Alltyplaca ymweliad â Chwmwrdu. Ar ol canu ton gan y cor, adroddwyd pennod yn feistrolgar gan Miss Anne Williams, Plasbach Adroddodd yr Ysgol Actau xxv., ar yr hon yr holodd y gweinidog ychydig o ofyniadau ar y prif faterion, ac y cafodd atebion boddhaol. Canodd y cor dan arweiniad medrus Mr. Thomas Davies, gynt o Lanybydder, bedair o donau cynnulleidfaol, yn nghyd â'r anthem, "Dyddiau dyn," yn swynol iawn. Pregethodd y gweinidog hefyd bregeth fer ar holi'r ysgol. Rhwng y cyfan, cafwyd gwasanaeth llwyddiannus iawn. Yr oedd tyrfa fawr iawn o bobl wedi dyfod yn nghyd, fel nad oedd y capel ond prin hanner digon i'w cynnwys. Arwydd o ryddfrydigrwydd cynnyddol yw, fod ficer parchus y plwyf wedi cyhoeddi'r cwrdd yn ei eglwys y Sul blaenorol gyda phob parodrwydd. Gyda llaw, gwnaethai ficer arall heb fod yn neppell yr un peth bythefnos cyn hyny mewn cyssylltiad â gwasanaeth cenadol a gynnaliai gweinidog Undodaidd yn ei blwyf. Diolch i'r ddau frawd yn garedig, ac i hen gyfeillion gwresog Cwmwrdu am y croesaw calonog a roddasant i'r Ysgol ar ei hymweliad.

Marwgofion.

Medi 22, Hannah Sylvanus, merch fechan Morgan a Gwenllian Jones, Penrhiwfer, Cwm Rhondda, yn 5 mis oed. Yr oedd yr un fechan hon yn wyres i Mr. a Mrs. William Jones, Cefncoed, y rhai ydynt yn aelodau ffyddlon yn yr Hen Dy Cwrdd. Claddwyd ei gweddillion y dydd Mercher canlynol yn mynwent yr Hen Dy Cwrdd, Cefn, pryd y gwasanaethwyd gan y gweinidog. Yr oedd y fechan yn anwyl gan y tad a'r fam, a gobeithiwn y cânt y ddoethineb i alaru yn gymmedrol yn eu colled a'u tristwch.

Medi 23, Tom Llywelyn, baban bychan John a Mary Evans, Penllain, Cellan, yn chwe' wythnos oed. Claddwyd yn mynwent Caeronen, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog.

Hydref 9, Hannah Davies, merch Mr. a Mrs. Lewis Davies, Troedyrhiw, ger Crugeryr, yn 15 mlwydd oed, o'r ddarfodedigaeth. Bu Hannah yn ffyddlon yn y Bwlch yn ystod ei bywyd. Y dydd Sadwrn canlynol daeth cynhebrwng lluosog yn nghylch i dalu y gymmwynas olaf i'r ymadawedig drwy gludo ei gweddillion marwol i gladdfa y lle hwn. Cymmerwyd y rhan ddefosiynol o'r gwasanaeth gan y Parch. Wm. J. Davies, a phregethodd y Parch. T. R. Davies, Pisgah, yn darawiadol iawn.

Hydref 14, yn 80 mlwydd oed. Thomas Davies, saer, Danyrheol, ger Alltyplaca. Cafodd yr hen frawd didwyll ei symmud heb foment o rybudd pan wrth ei orchwyl gwaith. Yr oedd i Thomas air da gan bawb, a chan y gwirionedd ei hun, fel dyn gonest a chydwybodol, a gwelir ei eisieu amser hir. Claddwyd yn mynwent Alltyplaca. Yr Arglwydd fyddo'n nodded i'w weddw yn ei henaint a'i gwendid.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.